Haws i'w Ddarllen

Pecyn Cais Cyfarwyddwr NAWM

Tudalen gynnwys

Croeso gan CEO/Cyfarwyddwr Artistig DASH tudalen 2

Cyfarwyddwr tudalen 5

Y Rôl tudalen 6

Pwrpas y Swydd tudalen 7

Cyfrifoldebau tudalen 8

Tasgau tudalen 9

Manyleb Person tudalen 11

Sut i Wneud Cais tudalen 12

Sesiwn Holi ac Ateb (Q&A) tudalen 13

Y Broses Gyfweld tudalen 14

Pethau Pwysig tudalen 15

Hysbysiad GDPR tudalen 15

Rhestr Wirio ar gyfer y Cais tudalen 16

Croeso gan Brif Swyddog Gweithredol/Cyfarwyddwr Artistig DASH

Helo

Croeso cynnes i DASH a New Art West Midlands.

Diolch am feddwl am wneud cais am un o'n swyddi newydd. Rwy'n gobeithio y bydd ein pecyn recriwtio yn eich ysbrydoli i feddwl am ymuno â'n tîm.

Mae DASH wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth ag artistiaid Anabl, B/byddar a Niwrowahanol, orielau celf ac amgueddfeydd a chynulleidfaoedd celfyddydol y DU ers dros 20 mlynedd.

Mae cydweithredu a chynrychiolaeth yn ganolog i'r gwaith yr ydym yn ei wneud.

Rydym yn dechrau ar gam nesaf y gwaith pwysig hwn.

Mae NAWM yn rhan o Contemporary Visual Arts Network England ac yn cael ei gynnal gan DASH.

Mae NAWM yn gweithio ar draws Gorllewin Canolbarth Lloegr yn hyrwyddo a dathlu ymarfer celf rhanbarthol ac yn darparu cefnogaeth sector.

Mae'n rhan o rwydwaith rhagweithiol, bywiog, cenedlaethol ac rydym ar hyn o bryd yn recriwtio Cyfarwyddwr i arwain gwaith NAWM. www.cvan.art

Des i'n Brif Swyddog Gweithredol (CEO) a Chyfarwyddwr Artistig DASH yn ystod haf 2023.

Fi yw un o'r ychydig arweinwyr Awtistiaeth/ ADHD yn y celfyddydau. Rwy'n edrych ymlaen at arwain DASH drwy'r cyfnod hwn o newid a thwf.

Rydyn ni'n cael ein rhedeg gan Artistiaid ac mae'r gwaith rydyn ni'n ei wneud yn cael ei arwain gan ymchwil.

Rydym yn deall nad yw rhai systemau a ffyrdd o weithio yn ein cymdeithas bob amser yn addas ar gyfer pobl anabl a niwrowahanol. Mae ein hamserlenni gwaith, ein cynhyrchiant a'n ffordd o feddwl yn gwneud amser a lle ar gyfer hyn.

Rydym hefyd yn mabwysiadu ymagwedd **niwrogadarnhaol** at ein holl waith, gan ganiatáu myfyrio cyson a chynnal **gofod seicolegol diogel** yn gadarn ar gyfer ein holl bobl.

Mae gennym ni waith cyffrous ac ystyriol i'w wneud dros y blynyddoedd nesaf. Bydd hyn yn cynnwys:

- ‘Rhaglen Curaduron y Dyfodol’
- Rhaglen meddwl yn feirniadol groestoriadol
- Comisiynau artistiaid DASH
- Gwaith newid systemau

Rydym yn chwilio am bobl sy'n:

- Greadigol
- Chwilfrydig
- Ymgystylltiedig
- Rhagweithiol

I fod yn rhan o DASH ac i wneud y gwaith hwn gyda'n gilydd.

Darllenwch drwy'r pecyn recriwtio os gwelwch yn dda.

***Mae rhestr o ddiffiniadau defnyddiol ar wefan DASH.**

Oes gennych chi unrhyw gwestiynau?

Cysylltwch â ni gyda'ch cwestiynau yn:

- E-bostiwch yn info@dasharts.org
- Anfonwch Neges Uniongyrchol ar ein Instagram @DashDisabilityArts

- Bydd yna **sesiwn wybodaeth Holi ac Ateb byw**
  Lleoliad: Zoom
  Dyddiad: Mawrth 2024

Gobeithio y byddwch yn ystyried ymuno â ni ar gyfer ein pennod nesaf.

Cofion cynnes

Heather Peak

Artist/Prif Swyddog Gweithredol/Cyfarwyddwr Artistig

Delwedd: Linzi Stauvers

Cyfarwyddwr

Mae New Art West Midlands (NAWM) yn chwilio am Gyfarwyddwr newydd i arwain y sefydliad yn ei gyfnod cyffrous nesaf.

Rydym yn chwilio am weithiwr celfyddydau gweledol proffesiynol sy'n:

- Chwilfrydig
- Rhagweithiol
- Llawn cymhelliant
- Greadigol
- Ddyfeisgar

Dylai fod gennych ymrwymiad cryf a gwybodaeth am y sector celfyddydau a diwylliannol yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr.

Bydd deiliad newydd y swydd yn adrodd i:

- Gyd-gadeiryddion NAWM
  (Heather Peak - artist a Phrif Swyddog Gweithredol/Cyfarwyddwr Artistig DASH, yr ail gyd-gadeirydd i'w benodi yn y flwyddyn newydd)
- Grŵp llywio NAWM (i'w benodi ar ôl i'r Cyfarwyddwr ddechrau).

Eich rôl chi yw creu a **chyflwyno gweithgaredd cynhwysol** a fydd yn cefnogi twf sector celfyddydau gweledol Gorllewin Canolbarth Lloegr.

Mae NAWM yn rhan o Contemporary Visual Arts Network England.
www.cvan.art

Mae NAWM yn cael ei gynnal gan DASH.

Mae DASH yn elusen celfyddydau gweledol a arweinir gan bobl ag Anableddau gyda gweledigaeth ar gyfer byd lle mae Celfyddyd Anabledd yn cael ei werthfawrogi'n gyfartal.

Am yr 20 mlynedd diwethaf, ei chenhadaeth fu:

- Effeithio ar newid yn y sector.
- Dileu rhwystrau i fynediad
- Sefydlu ymarfer Celfyddydau Anabledd fel y brif ffrwd

Mae DASH bellach mewn cyfnod o dwf ac ehangu, gan adeiladu ar ei henw da a'i hymddiriedaeth.

Bydd Cyfarwyddwr newydd NAWM yn ymuno â thîm DASH i adeiladu sefydliad cynhwysol, creadigol sy'n cael ei redeg gan artistiaid gyda'i gilydd.

Y Rôl

Teitl Swydd: Cyfarwyddwr

Yn atebol i'r:	Cyd-Gadeirydd NAWM: CEO/ Cyfarwyddwr Artistig DASH Cyd-Gadeirydd NAWM: (penodi yn y flwyddyn newydd) Grŵp Llywio NAWM
Cyflog:	£22,800 y flwyddyn (cyfwerth ag amser llawn £38,000) Cyfnod penodol tan fis Mawrth 2026
Contract ac oriau:	Rhan-amser, 21 awr/ 3 diwrnod yr wythnos Hyblyg, hybrid, yn gweithio gyda thîm DASH/NAWM wyneb yn wyneb unwaith yr wythnos
Gwyliau:	25 diwrnod, ynghyd â gwyliau cyhoeddus (pro-rata)
Dyddiad dechrau:	Mis Mai/Mis Mehefin 2024

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Hanner nos, **dydd Gwener 15 Mawrth 2024**

Pwrpas y Swydd

- Bydd y Cyfarwyddwr yn llysgennad dros gelfyddydau gweledol cyfoes yng Ngorllewin Canolbarth Lloegr, gan ddathlu arferion a gweithgareddau rhanbarthol.

- Bydd y Cyfarwyddwr yn chwarae rhan allweddol wrth ddarparu cefnogaeth gydweithredol i'r sector celfyddydau gweledol ar draws rhanbarth Gorllewin Canolbarth Lloegr.

- Bydd y Cyfarwyddwr yn mynd i'r afael â rhwystrau i **ddatblygu ac ymgysylltu** o fewn y celfyddydau gweledol.

- Bydd y Cyfarwyddwr yn nodi bylchau o fewn rhaglenni **datblygu ac ymgysylltu** o fewn y celfyddydau gweledol.

- Bydd y Cyfarwyddwr yn arwain ar gyflwyno rhaglenni celf a ariennir sy'n cefnogi gweithgaredd celfyddydol sy'n hyrwyddo amrywiaeth, creadigrwydd a thegwch.

- Byddant yn cynnal gwerthoedd sefydliadol CVAN a DASH ac yn ymroddedig i gynhwysiant.

- Byddwch yn ymuno â thîm a bwrdd creadigol a chael chynnig amgylchedd dysgu agored, wedi'i gefnogi'n llawn gyda newid system wrth ei galon.

- Mae'r swydd hon yn gweithio o bell, gyda chyfarfodydd wyneb yn wyneb bob pythefnos gyda thîm DASH yn Oriel IKON, Birmingham.

Cyfrifoldebau

- Cynrychioli NAWM yn fewnol ac yn allanol.
- Rhannu gwybodaeth rhwng y rhanbarth a'r rhwydwaith celfyddydau gweledol cyfoes cenedlaethol.
- Gweithio gyda chydweithwyr CVAN cenedlaethol a rhanbarthol i gefnogi ymgyrchoedd a rhaglenni.
- Yn gyfrifol am strategaeth a gweithrediadau NAWM.
- Yn gyfrifol am reolaeth ariannol effeithiol NAWM.
- Yn gyfrifol am nodi cyfleoedd datblygu a buddsoddi ar gyfer artistiaid Gorllewin Canolbarth Lloegr a NAWM.
- Adeiladu a chynnal perthnasoedd cryf a pharhaol gyda rhanddeiliaid, partneriaid a chyllidwyr.
- Rheoli staff llawrydd a chontractwyr.
- Ffurfio a goruchwylio marchnata a chyfathrebu NAWM.
- Sefydlu a chynnal gwaith monitro ac adrodd i randdeiliaid, partneriaid a chyllidwyr.

Tasgau

- Meithrin perthnasoedd cryf ag artistiaid, ymarferwyr celfyddydau gweledol, sefydliadau, a sefydliadau ac unigolion perthnasol eraill - llunwyr barn, llunwyr polisi, cyllidwyr, a llunwyr penderfyniadau

- Curadu a chreu rhaglenni ar gyfer artistiaid Gorllewin Canolbarth Lloegr

- Dyfeisio a chyflwyno gweithgarwch eiriolaeth a chymorth sector o ansawdd uchel mewn ymgynghoriad â'r Grŵp Llywio

- Cefnogi recriwtio aelodau'r Grŵp Llywio

- Hwyluso a dogfennu cyfarfodydd y Grŵp Llywio, sesiynau ymgynghori a chynllunio

- Nodi cyfleoedd i hyrwyddo arfer celfyddydau rhanbarthol a chodi ymwybyddiaeth o werth cyhoeddus y celfyddydau gweledol yn y rhanbarth.

- Nodi meysydd ar gyfer ymchwil

- Casglu a rhannu data tystiolaeth

- Gweithio gyda DASH ar ymchwil, rhaglennu a gwybodaeth sector

- Sicrhau bod gwaith NAWM yn deg ac yn hygyrch

- Sefydlu a chynnal prosesau gweinyddol, monitro a gwerthuso effeithiol

- Paratoi adroddiadau, monitro data a gwerthuso i fodloni gofynion cyllidwyr

- Gosod cyllidebau a rheoli cyllid yn effeithiol, monitro incwm a gwariant, cynhyrchu rhagolygon llif arian a chyfrifon rheoli

- Arwain ar godi arian, gan gynnwys nodi cyfleoedd, dyfeisio cynigion, cynhyrchu ceisiadau ac adroddiadau

- Goruchwylio’r gwaith o ddatblygu a darparu gweithgarwch marchnata, ymgysylltu a chyfathrebu effeithiol, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol a rheoli gwefannau, sy’n cynyddu amlygrwydd NAWM ac yn cyfleu gwerth celf gyfoes

- Recriwtio a rheoli staff llawrydd, gan sicrhau bod contractau priodol yn eu lle ac yn cael eu monitro

- Cefnogi amgylchedd gwaith cadarnhaol, cefnogol

- Ymgymryd â dyletswyddau eraill a bennwyd mewn ymgynghoriad â Grŵp Llywio NAWM

Manyleb y Person

Rydym yn chwilio am rywun:

- A all ddangos angerdd a chwilfrydedd dros gelf gweledol cyfoes
- Sy'n rhwydweithiwr a mapiwr rhagweithiol gyda sgiliau rhyngbersonol rhagorol
- Sy'n gallu dangos ymrwymiad i gyfle cyfartal
- Gyda rhwydweithiau cryf ar draws y celfyddydau gweledol, diwydiannau creadigol, Addysg Uwch, asiantaethau lleol a chenedlaethol
- Sydd â phrofiad mewn rôl uwch mewn sefydliad bach neu gyfwerth
- Sydd â'r gallu i weithio'n hyblyg, blaenoriaethu tasgau a chwrdd â therfynau amser
- Sydd â gwybodaeth am yr heriau sy'n wynebu'r sector celfyddydau gweledol

Rydym yn chwilio am wybodaeth, sgiliau, profiad, a/neu barodrwydd i ddysgu a hyfforddi yn y meysydd canlynol:

- Hanes profedig mewn codi arian a gwaith datblygu
- Yn gallu meithrin perthynas a datblygu partneriaeth
- Sgiliau hwyluso, gweinyddol a threfnu cryf
- Gwaith tîm ardderchog a'r gallu i weithio'n annibynnol ac ar eich menter eich hun
- Sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu rhagorol yn ysgrifenedig a/neu ar lafar
- Profiad o reoli ac adrodd ariannol

- Yn gymwys mewn defnydd TG, gan gynnwys rhaglenni Microsoft Office

Sut i wneud cais

Anfonwch **CV cyfredol**. Ni ddylai hwn fod yn fwy na 3 ochr A4 (tua 450 gair y dudalen, dim llai na 12 pwynt).

A fyddech cystal â chynnwys enwau **2 eirda** (i gysylltu â nhw ar ôl apwyntiad).

Yn ogystal â CV ysgrifenedig, a fyddech cystal ag ymateb i'r cwestiynau canlynol:

1. Sut ydych chi'n bodloni'r fanyleb person?
2. Pa Artistiaid o Orllewin Canolbarth Lloegr sydd o ddiddordeb i chi a pham?
3. Pa ddarllen, gwylio neu wrando perthnasol ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd?

Atebwch gan ddefnyddio **un** o'r fformatau hyn os gwelwch yn dda:

- Cynnig ysgrifenedig (uchafswm. 1000 o eiriau)
- Ffilm (7 munud ar y mwyaf)
- Recordiad sain (7 munud ar y mwyaf)
- Gludwaith neu luniad gweledol*

*A fyddech cystal ag **e-bostio llun digidol** o'ch gludwaith/lluniad neu **ddolen WeTransfer** i'ch recordiad sain neu ffilm. **Nid ydym yn gallu** derbyn cyflwyniadau yn y post.

A fyddech cystal â llenwi ein ffurflen **Monitro Cyfle Cyfartal** yma.

Gallwch lawrlwytho fersiwn Word o wefan DASH os yw'n well gennych.

Bydd y ffurflen monitro Cyfle Cyfartal ar gael i'r panel dethol. Edrychir arni ochr yn ochr â'ch cais.

Rhowch wybod i ni os oes gennych unrhyw **ofynion mynediad**.

Anfonwch eich **CV**, **geirdaon** ac **ymatebion** i'r cwestiynau mewn e-bost i info@dasharts.org gan ddefnyddio '*Cyfarwyddwr NAWM*' fel y pwnc.

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau: Hanner nos, **dydd Gwener 15 Mawrth 2024**

Sesiwn Holi ac Ateb

Bydd **sesiwn Holi ac Ateb** byw, anffurfiol gyda'r Prif Swyddog Gweithredol/Cyfarwyddwr Artistig, Heather Peak, yn cael ei chynnal ar-lein (drwy Zoom) ym mis Mawrth.

Bydd y sesiwn hon yn cynnwys cyfieithydd Iaith Arwyddion Prydain (BSI).
Bydd y rhain yn cael eu recordio, gyda'r camera i ffwrdd.

Bydd hwn yn gyfle ymlaciedig i wneud y canlynol:

- dysgu am raglen DASH
- cynlluniau ar gyfer y dyfodol
- i ofyn mwy o gwestiynau am y rôl

Nid oes unrhyw gwestiwn yn wirion.

Archebwch le ar y sesiwn drwy e-bostio:info@dasharts.org.

Neu **cofrestrwch ar gyfer ein cylchlythyr** yma i dderbyn diweddariadau.

Rhowch wybod i ni am unrhyw **Ofynion Mynediad** ar gyfer mynychu'r sesiynau hyn.

Bydd adran **Holi ac Ateb** benodol ar gael ar ein gwefan ar gyfer rôl y Cyfarwyddwr.

Byddwn yn diweddaru'r cynnwys mewn ymateb i gwestiynau.

Oes gennych chi gwestiwn?

Anfonwch e-bost atom ar: info@dasharts.org

Defnyddiwch '*Cwestiynau am Rôl Cyfarwyddwr NAWM*' yn y llinell bwnc.

Y Broses Gyfweld

Cyfweliadau Cam 1: Dydd Mawrth 9 Ebrill, ar-lein ar Zoom (20mun)

Cyfweliadau Cam 2: Dydd Mercher 17 Ebrill, wyneb yn wyneb (45 munud) Oriel Ikon, Birmingham

- Os cewch eich dewis ar gyfer y cyfweliadau rownd gyntaf byddwch yn cael gwybod ddydd Mercher 27 Mawrth 2024.
- Mae'r broses gyfweld yn cynnwys dau gam o drafodaethau panel.
- Bydd y panel yn cynnwys tri o bobl o CVAN a DASH.
- Rhoddir cwestiynau i bob ymgeisydd **1 wythnos ymlaen llaw** ar gyfer pob cam.
- **Ar gyfer cam 2**, gofynnir i chi roi cyflwyniad.
- Bydd gwybodaeth ychwanegol yn cael ei hanfon at ymgeiswyr cyn cyfweliadau cam 2. Rydym ni eisiau sicrhau eich bod chi'n gyfforddus ac yn gyfarwydd â'r teithio a'r lleoliad.
- Dywedwch wrthym os oes gennych unrhyw ofynion mynediad ychwanegol.
- Bydd adborth yn cael ei roi i bob ymgeisydd ar gais.
- Bydd penderfyniadau'n cael eu gwneud ddydd Llun 22 Ebrill.
- Dyddiad cychwyn yr ymgeisydd llwyddiannus: Mis Mai/Mis Mehefin 2024.

Pethau Pwysig

Mae DASH yn sefydliad celfyddydau gweledol sy'n cael ei arwain gan bobl Anabl. Mae ein gwerthoedd yn seiliedig ar gyfle cyfartal a'r **Model Cymdeithasol o Anabledd**.

Rydym yn cydnabod, oherwydd rhwystrau a gwahaniaethu, nad yw pobl o nodweddion gwarchodedig yn cael yr un cyfleoedd cyflogaeth.

Rydym yn annog ceisiadau gan bobl sy'n wynebu'r rhwystrau mwyaf i gael mynediad at yrfaoedd yn y celfyddydau.

Mae hyn yn cynnwys pobl y mae eu gofynion mynediad yn llai tebygol o gael eu bodloni mewn mannau eraill ac sydd hefyd yn profi rhwystrau hiliol a dosbarthol.

Mae angen gwiriad DBS ar gyfer pob swydd yn DASH (manwl neu sylfaenol yn dibynnu ar y rôl). Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y broses DBS, mae croeso i chi ofyn.

Mae DASH yn Gyflogwr Ymrwymedig Hyderus o ran Anabledd

Hysbysiad data personol GDPR

Fel rhan o'n proses recriwtio, mae DASH yn casglu ac yn prosesu data personol sy'n ymwneud ag ymgeiswyr am swyddi.

Hoffem fod yn glir ynghylch sut rydym yn casglu ac yn defnyddio data i fodloni ein rhwymedigaethau diogelu data.

I gynnal y broses recriwtio byddwn yn rhannu'r data personol a dderbyniwyd gennych yn eich cais gyda'r panel llunio rhestr fer a chyfweld.

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyfyngu i'r rhai sy'n ymwneud â'r broses recriwtio.

Rhestr Wirio ar gyfer y Cais

Gwnewch yn siŵr eich bod wedi cynnwys y canlynol yn eich cais.

CV cyfredol (dim mwy 3 ochr A4) Anfonwch hwn ymlaen ar e-bost trwy Word neu PDF	
Enwau **2 eirda** (i'w cysylltu ar ôl apwyntiad)	
Eich ymatebion i'n cwestiynau: 1. Sut ydych chi'n bodloni'r fanyleb person? 2. Pa Artistiaid o Orllewin Canolbarth Lloegr sydd o ddiddordeb i chi a pham? 3. Pa ddarllen neu wylio neu wrando perthnasol ydych chi'n ei wneud ar hyn o bryd?	
Rydych chi wedi cwblhau'r ffurflen **Monitro Cyfle Cyfartal** ar-lein **neu** wedi atodi fersiwn Word.	
Wedi cynnwys manylion unrhyw **ofynion mynediad** yn eich e-bost.	

Anfonwch eich **CV**, **geirdaon** ac **ymatebion** i'r cwestiynau mewn e-bost i info@dasharts.org gan ddefnyddio '*Cais Cyfarwyddwr*' fel y pwnc.

Rhowch wybod i ni os ydych chi'n cael unrhyw anawsterau wrth gyflwyno'ch cais.

Diolch a **Phob Lwc!**